**LC455**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2002**

Mae Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 1997 yn gosod rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr i adennill ac ailgylchu gwastraff deunydd pacio. Mae'r rheoliadau presennol yn cynyddu'r targedau canrannol ar gyfer adennill ac ailgylchu.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**
Mae gan adran 93(3) o'r Ddeddf alluogi yr effaith sy'n mynnu, heblaw yn achos rheoliadau sy'n gweithredu rhwymedigaethau'r Gymuned, neu gytundebau rhyngwladol, bod raid i'r Cynulliad gael ei fodloni mewn perthynas â'r materion a nodwyd yn is-adran (6).

Yn achos rheoliadau sy'n rhoi ar waith rwymedigaethau'r Gymuned neu gytundebau rhyngwladol y mae'n ddigonol i'r Cynulliad, o dan adran 93(5), barchu'r materion a nodwyd yn is-baragraff (6) yn unig.

Mae geiriad y Rhaglith - "a rhoi sylw i'r materion a bennir yn adran 93(6) o'r Ddeddf honno, fel sy'n ofynnol o dan adran 93(5)" - a'r faith bod nodyn esboniadol rheoliadau 1997 yn dynodi eu bod wedi'u gwneud er mwyn cyrraedd y targedau yng Nghyfarwyddeb 94/62EC, yn ditio bod y rheoliadau presennol yn cael eu gwneud drwy weithredu rhwymedigaethau'r Gymuned.

O dan yr amgylchiadau hyn, dylai’r nodyn esboniadol, fel sy’n ofynnol o dan Arferion Offerynnau Statudol (paragraff 2.101), nodi pa un o rwymedigaethau’r Gymuned y mae’r rheoliadau yn ei gweithredu.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

16 Ebrill 2002